

Cyngor Dinas Casnewydd

Cynnig Ad-drefnu Ysgol

Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

**Cynnig i gau'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn
Ysgol Uwchradd Llanwern yn weithredol o fis Ionawr 2018**

Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol: Rhwyng 10 Gorffennaf 2017 a 24 Medi 2017

Diben

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, Gorffennaf 2013.

Mae'r adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Y Cynnig
- Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- Fersiwn Gryno Syml – Plant a Phobl Ifanc
- Llais y Dysgwr
- Ymatebion i'r Ymgynghoriad
- Estyn
- Copi o'r Holiadur Disgyblion (yn Atodiad A)

Y Cynnig

Cau'r Ganolfan Adnoddau Dysgu (y Ganolfan) sydd wedi'i lleoli yn Ysgol Uwchradd Llanwern ar hyn o bryd yn weithredol o fis Ionawr 2018.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Estynnwyd gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad statudol i'r rhanddeiliaid canlynol, naill ai drwy ddolen i'r pecyn ymgynghori ar wefan y Cyngor ac anfon fersiwn electronig o'r pecyn dros yr e-bost neu fel arall drwy anfon copïau caled o'r deunydd ymgynghori:

- Athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Uwchradd Llanwern;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion Ysgol Uwchradd Llanwern, gan gynnwys y Ganolfan Adnoddau Dysgu;
- Disgyblion yn Ysgol Uwchradd Llanwern;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid plant sy'n mynychu dosbarthiadau'r Ganolfan Adnoddau Dysgu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled y Ddinas;
- Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob ysgol arall yng Nghasnewydd sy'n cynnal dosbarthiadau yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu;
- Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd;
- Holl Gynghorau Cymuned Casnewydd;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion sy'n rhan o'r cynigion;
- Awdurdodau Lleol eraill ledled rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau Trafnidiaeth perthnasol;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru;
- Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Mynwy;
- Archesgobaeth Gatholig;
- Estyn;
- Undebau athrawon ac undebau llafur staff sy'n cynrychioli athrawon a staff Ysgol Uwchradd Llanwern;
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent;
- Y bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol (neu gorff cyfatebol);
- SNAP Cymru.

Trefnwyd y digwyddiadau ymgynghori canlynol a rhoddwyd cyhoedduswydd iddynt mewn llythyr i randdeiliaid. Rhoddwyd cyhoedduswydd i'r wybodaeth hon hefyd ar wefan y Cyngor a thrwy'r ddogfen ymgynghori gyfan.

Lleoliad	Dyddiad ac Amser	Math o ddigwyddiad
Ysgol Uwchradd Llanwern, Hartridge Farm Road, Casnewydd, NP18 2YE	Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2017 10.00am – 12.00pm	Sesiwn galw heibio
Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR	Dydd Mawrth, 12 Medi 2017 4.30pm – 6.30pm	Sesiwn galw heibio

Cynhaliwyd y sesiwn galw heibio gyntaf yn Ysgol Uwchradd Llanwern a daeth pedwar rhiant unigol i'r sesiwn honno, gan gynnwys cyn-riant, rhiant presennol a darpar riant. Ni ddaeth neb i'r ail ddiwyddiad a gynhaliwyd yn y Ganolfan Ddinesig. Codwyd y pwyntiau a'r cwestiynau canlynol yn y digwyddiad cyntaf:

Rwy'n ofni y gadewir i ddisgyblion 'oroesi' mewn addysg brif ffrwd pan nad yw'r amgylchedd hwn yn addas ar eu cyfer.

Nid felly y bydd. Bydd darpariaeth grwpiau bach ar gael i'r disgyblion, a fydd yn addas ar gyfer hyd at 10 o ddisgyblion. Caiff y ddarpariaeth hon ei gweithredu gan yr ysgol a bydd ar gael i ddisgyblion o grwpiau Blwyddyn 7 hyd at grwpiau Blwyddyn 11. Bydd hyn yn ehangu ar y ddarpariaeth bresennol sydd ond yn cael ei chynnig i ddisgyblion Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8. Ni chaiff disgyblion eu hintegreiddio â dosbarthiadau prif ffrwd nes yr ystyrir bod hynny'n briodol ar eu cyfer.

Mae ofn y caiff disgyblion eu gorfodi i symud o amgylch prif adeilad yr ysgol er mwyn mynd i'w hamrywiol wersi.

Caiff disgyblion a fydd yn mynychu'r ddarpariaeth fewnol wedi'i hailfrandio eu haddysgu yn yr un ystafell (ystafelloedd) am y rhan fwyaf o'r diwrnod ysgol. Dim ond pan ystyrir y byddai hynny'n briodol i'r disgybl y caiff y disgybl hwnnw ei integreiddio â dosbarthiadau prif ffrwd, a chaiff y broses hon ei chefnogi fel y bo'n briodol gan aelodau enwebedig o staff.

Beth fydd yn digwydd os bydd angen lleoliadau grwpiau bach ar ddisgyblion?

Bydd yr ysgol yn gweithredu darpariaeth grwpiau bach fewnol a fydd yn addas ar gyfer hyd at 10 o ddisgyblion. Bydd y ddarpariaeth hon ar gael i unrhyw ddisgybl y mae angen darpariaeth o'r fath arno, gyda'r nod o allu darparu lleoliad hyblyg sy'n cefnogi gwaith mewn grwpiau bach ond yn cynnig mynediad at ddosbarthiadau prif ffrwd lle y bo'n briodol.

Beth fydd yn digwydd os na fydd y ddarpariaeth hon yn gweithio?

Os na fydd lleoliad grwpiau bach yn llwyddiannus i ddisgybl unigol, bydd yr ysgol yn atgyfeirio'r disgybl hwnnw at yr Awdurdod Lleol (ALI) er mwyn ystyried lleoliad mwy priodol. Gwneir y penderfyniad hwn gan Banel Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a / neu'r Panel Symudiadau a Reolir, pa un bynnag yr ystyrir yn fwyaf priodol yn seiliedig ar anghenion unigol.

Sut bydd y cyfnod pontio yn gweithio i ddisgyblion sydd ym Mlwyddyn 6 ar hyn o bryd ac y gall fod angen lleoliad grwpiau bach arnynt ym Mlwyddyn 7?

Bydd unrhyw ddisgybl y nodir bod angen darpariaeth grwpiau bach arno yn ystod y cyfnod pontio yn destun trafodaeth rhwng yr ysgol gynradd bresennol, Ysgol Uwchradd Llanwern a'r Panel AAA fel y bo'n briodol. Mae diwrnodau pontio yn arfer safonol rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a gellir trefnu ymweliadau pontio estynedig i ddisgyblion y mae angen y cymorth ychwanegol hwn arnynt.

A fydd disgyblion yn cael cludiant i'r ysgol?

Mae polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor yn datgan y darperir cludiant am ddim i ddisgyblion ysgol uwchradd prif ffrwd sy'n byw 3 milltir neu fwy o'u hysgol ddalgyrch, neu fel arall o'r ysgol agosaf sydd ar gael iddynt. Nid oes unrhyw ddisgresiwn i roi cymorth i ddisgyblion sy'n gwneud cais llwyddiannus i fynd i ysgol heblaw eu hysgol ddalgyrch. Caiff unrhyw geisiadau i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion â datganiad AAA eu hystyried gan y Panel AAA.

Mae rhai disgyblion y mae angen darpariaeth meithrin ('nurture provision') grwpiau bach arnynt ond nid ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer canolfannau eraill. Beth fydd yn digwydd i'r disgyblion hyn os bydd y Ganolfan yn cau?

Bydd y Tîm AAA yn cydgysylltu â darparwyr ledled Casnewydd er mwyn sicrhau bod darpariaeth briodol i ddiwallu anghenion pob disgybl unigol. Nodwyd lleoliadau amgen addas eisoes ar gyfer pob disgybl sy'n mynychu'r Ganolfan ar hyn o bryd.

A fydd cau'r ganolfan hon yn golygu y bydd disgyblion sy'n byw yn y dalgylch o dan infantais o ran cael gfael ar ddarpariaeth o'r fath yn y dyfodol?

Mae pob ysgol uwchradd yng Nghasnewydd yn gweithredu darpariaeth grwpiau bach amgen er mwyn diwallu anghenion disgyblion na allant ddilyn cwricwlwm llawn dosbarthiadau prif ffrwd.

Fersiwn Gryno Syml – Plant a Phobl Ifanc

Cafodd Fersiwn Gryno Syml o'r brif ddogfen ymgynghori ei chyhoeddi a'i rhannu â rhanddeiliaid. Roedd y ddogfen hon hefyd wedi'i hanelu at blant a phobl ifanc.

Cyfarfu swyddogion o'r Cyngor hefyd â nifer fach o ddisgyblion a oedd yn mynychu'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn yr ysgol ar y pryd. Ceir dadansoddiad o'u sylwadau yn yr adran **Llais y Dysgwr** isod.

Hefyd, cafodd holiadur plant ei lunio a'i rannu ag Ysgol Uwchradd Llanwern i'w ddsbarthu i ddisgyblion. Ceir copi o'r holiadur yn Atodiad A, er yn anffodus na ddychwelwyd unrhyw ymatebion wedi'u cwblhau i'r Cyngor.

Llais y Dysgwr

Ymwelodd Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth Addysg a'r Rheolwr Anghenion Addysgol Arbennig â'r Ganolfan ar 19 Gorffennaf 2017 i drafod y cynnig gyda'r disgyblion yr effeithir arnynt. Yn anffodus, dim ond tri disgybl oedd ar gael, a dewisodd un ohonynt beidio ag ymgysylltu â'r swyddogion.

Nododd un o'r ddau ddisgybl arall nad oedd ganddo farn yr un ffordd na'r llall am y cynnig ac y byddai'n ymaddasu at unrhyw drefniant newydd a fyddai'n cael ei roi ar waith. Byddai'n well ganddo gael lleoliad prif ffrwd.

Fodd bynnag, roedd gan y disgybl olaf farn wahanol a dywedodd ei fod yn drist y byddai'r Ganolfan o bosibl yn cau ac roedd ganddo rai pryderon ynghylch symud i amgylchedd prif ffrwd, er bod ganddo fwy o ffrindiau mewn addysg brif ffrwd nag yn y Ganolfan.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cafwyd 4 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan randdeiliaid, a dim ond 1 ohonynt oedd o blaid y cynnig. Roedd y tri ymateb a oedd yn erbyn y cynnig yn nodi rhesymau, gan gynnwys y canlynol:

- Mae'r Ganolfan yn rhan bwysig o gymuned yr ysgol sy'n hanfodol i helpu disgyblion ag anghenion ychwanegol i feithrin eu sgiliau;
- Dylai addysg gael blaenoriaeth dros gost;
- Gallai fod effaith andwyol neu negyddol ar y disgyblion sydd wedi'u lleoli yn y Ganolfan gan y bydd rhywfaint o darfu ar eu haddysg.

Er bod yr ALL yn cydnabod y problemau posibl hyn, mae'n parhau'n ymrwymedig i'r cynnig i gau'r Ganolfan yn barhaol. Bydd gweithredu'r cynnig hwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo cynhwysiant oherwydd caiff disgyblion eu haddysgu mewn amgylchedd prif ffrwd, yn hytrach nag o fewn darpariaeth grwpiau bach, gyda chymorth ychwanegol a gwasanaethau allgymorth ychwanegol yn cael eu darparu gan yr Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) lle y bo'n briodol er mwyn diwallu anghenion penodol disgyblion unigol.

Estyn

Daeth yr ymateb ffurfiol gan Estyn i'r casgliad bod y cynigydd wedi darparu rhesymeg glir dros y cynnig ac roedd Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol y ddarpariaeth o leiaf ac y gallai olygu y caiff anghenion disgyblion unigol eu diwallu'n well mewn lleoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mwy cynhwysol o fewn ysgolion cynnal prif ffrwd. Roedd o'r farn bod y rhan fwyaf o'r agweddau wedi cael eu hystyried yn briodol.

Fodd bynnag, nododd Estyn nad oedd yr amcanestyniadau a gynhwyswyd yn y ddogfen ymgynghori yn nodi faint o ddisgyblion y gallai'r cynnig effeithio arnynt yn y dyfodol. Gall y Ganolfan ddarparu ar gyfer uchafswm o 6-8 o ddisgyblion bob blwyddyn. Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo a'i weithredu, caiff y bobl ifanc hyn eu haddysgu yn eu hysgolion cynnal prif ffrwd gyda chyfleoedd i gael cymorth ychwanegol gan yr UCD fel y bo'n ofynnol.

Roedd Estyn hefyd o'r farn nad oedd y cynnig yn awgrymu'n foddhaol sut roedd yr ALL yn bwriadu lliniaru'r problemau a nodwyd fel anfanteision posibl;

- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion a oedd yn mynychu'r Ganolfan bellach wedi symud yn llwyddiannus i ddarpariaeth grwpiau bach mewn ysgolion cynnal. Nid oedd yr unig ddisgybl nad oedd wedi cael ei symud yn llwyddiannus yn mynychu'r ddarpariaeth yn rheolaidd ac mae wedi symud i grŵp meithrin bach ar gyfer disgyblion agored i niwed, sy'n fwy addas ar gyfer ei anghenion penodol.
- Ni fydd unrhyw aelod o staff a gyflogwyd yn flaenorol i weithio yn y Ganolfan yn colli ei swydd ar hyn o bryd. Mae rhai yn parhau i weithio gyda'r disgyblion mewn darpariaeth prif ffrwd grwpiau bach ac mae eraill wedi ymgymryd â rolau amgen yn Ysgol Uwchradd Llanwern.
- Dylai'r staff hyfforddedig a gyflogir yn yr ysgolion cynnal a'r defnydd cynyddol o wasanaethau allgymorth leihau nifer y disgyblion y mae angen eu lleoli yn yr UCD gan felly sicrhau y gallant barhau i fynychu eu hysgolion prif ffrwd. O ran y pwysau ar y gyllideb, dirprwywyd cyllid i'r ysgolion a fydd yn golygu y gallant wneud y defnydd gorau o adnoddau ar lefel leol er mwyn cefnogi disgyblion drwy'r ddarpariaeth grwpiau bach, ymyriadau a chymorth.

Nododd Estyn hefyd nad oedd y ddogfen ymgynghori yn cynnig dadansoddiad o'r canlyniadau ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r Ganolfan ac unrhyw effaith y byddai'r cynnig yn ei chael ar hyn yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan fod y ddarpariaeth wedi'i chyfyngu i ddisgyblion Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 yn unig, a'u bod yn cael eu hintegreiddio â'u hysgolion

cynnal prif ffrwd ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, ni chofnodir unrhyw Ddeilliannau Diwedd Cyfnod Allweddol penodol ar gyfer y Ganolfan.

Codwyd nifer o gwestiynau ychwanegol hefyd. Ceir amlinelliad ohonynt isod, ynghyd ag ymateb perthnasol yr ALI:

- *Pam bod y cynigydd wedi newid ei feddwl ac wedi penderfynu nad oes bellach angen cymorth arbenigol ar y disgyblion dan sylw?*
Cydnabyddir o hyd bod angen cymorth arbenigol ar y disgyblion ond mae'r ALI o'r farn mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy ddarpariaeth grwpiau bach o fewn ysgol gynnal. Bydd hyn yn golygu y gellir rhoi trefniadau integreiddio estynedig ar waith ac y gellir cyflwyno llwybr dysgu mwy personol.
- *Sut y bydd y disgyblion yr effeithir arnynt yn ymdopi mewn lleoliad prif ffrwd?*
Bydd lefel uchel o gymorth ar gael i'r bobl ifanc yn eu lleoliad prif ffrwd. Bydd hyn yn cynnwys mwy o gyfleoedd i fanteisio ar ddewislen o ymyriadau a chyfleoedd i ryngweithio â modelau rôl cadarnhaol. Bydd y pwyslais ar ddarparu amgylchedd meithringar er mwyn diwallu anghenion unigol ym mhob rhan o'r ysgol, nid dim ond ar ddiwedd Blwyddyn 8 fel y cynigir o dan y trefniant presennol.
- *Sut gall yr ALI sicrhau bod y ddarpariaeth brif ffrwd yn y sefyllfa orau i ddiwallu anghenion y disgyblion hyn?*
Mae'r ALI wedi darparu hyfforddiant helaeth i staff prif ffrwd a rhoddwyd trefniadau cydweithredu ar waith ledled y Ddinas yn cynnwys aelodau o staff sy'n gweithredu grwpiau bach a Chanolfannau Cynhwysiant mewn ysgolion prif ffrwd. Mae nifer o aelodau o staff medrus iawn, gan gynnwys Cydgysylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynorthwyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol a fydd yn y sefyllfa orau i weithio gyda'r bobl ifanc hyn.
- *A drafodwyd y cynnig â'r rhieni a'r disgyblion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt ac a ddiwygiwyd datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig?*
Cynhaliodd swyddogion sesiynau galw heibio gyda rhieni a disgyblion, a chynhaliwyd adolygiadau ffurfiol o ddatganiadau gan arwain at addasiadau i ddatganiadau lle bo'u hangen a lle y bo'n briodol.
- *Sut yr ymdrinnir â'r ddarpariaeth ar gyfer plant nad ydynt yn byw yn y dalgylch?*
Mae gan bob ysgol brif ffrwd Ganolfannau Cymorth Dysgu sy'n cynnwys darpariaeth grwpiau bach, ac mae hyfforddiant cydweithredol eisoes yn cael ei gynig i aelodau o staff sy'n gweithredu'r canolfannau hyn. Mae gan y disgybl penodol hwn lefelau presenoldeb gwael ac yn dilyn adolygiad, mae wedi penderfynu nad yw'n awyddus i fynychu Ysgol Uwchradd Llanwern na'r ysgol agosaf sydd ar gael iddo. Felly gwnaed darpariaeth iddo mewn lleoliad grwpiau bach, sy'n gysylltiedig â'r UCD, ar gyfer pobl ifanc agored i niwed.
- *Pa drefniadau pontio sy'n cael eu hystyried er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn llwyddo i integreiddio'n llawn?*
Roedd y disgyblion a oedd yn mynychu'r Ganolfan yn integreiddio mewn gwersi prif ffrwd wythnosol penodol. Fodd bynnag, mae'r Cydgysylltydd ADY ac aelodau eraill o staff yr ysgol o'r farn y bydd y cynnig hwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â'r drefn integreiddio hon gan y bydd disgyblion yn gallu penderfynu pa wersi sy'n debygol o fod mwyaf buddiol iddyn nhw fel unigolion. Bydd cyfarfodydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar y Disgybl rheolaidd a thargedau Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn llywio'r camau nesaf.

- *Sut y caiff unrhyw achosion o darfu ar ddisgyblion eu lleihau i'r eithaf?*
Mae pob disgybl yn gyfarwydd â'r ysgol ac wedi gweithio gyda'r Cydgysylltydd ADY ac aelodau eraill o staff cynhwysiant yn y gorffennol. Bydd rhai o staff y Ganolfan yn parhau i weithio gyda'r disgyblion a chynhelir cyfarfodydd monitro rheolaidd er mwyn gallu ymdrin ag unrhyw bryderon yn gyflym. Dim ond i ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 y cynigir y ddarpariaeth ar hyn o bryd, ac felly bydd y cynnig hwn yn rhoi mwy o sefydlogrwydd o ran darpariaeth i'r bobl ifanc hyn.

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013), mae'r adroddiad hwn wedi'i gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn www.newport.gov.uk

Er mwyn gofyn am gopi caled (papur) o'r ddogfen hon, cysylltwch â Rheolwr Datblygu Gwasanaeth Addysg Cyngor Dinas Casnewydd ar 01633 656656 neu anfonwch e-bost at school.reorg@newport.gov.uk



Canolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Uwchradd Llanwern

Rydym am gau'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Uwchradd Llanwern ac yn lle hynny, symud y plant i leoliadau mwy cynhwysol o fewn ysgolion prif ffrwd. Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth yn addas ar gyfer hyd at 8 o ddisgyblion o Flynyddoedd 7 ac 8.

1. Ydych chi'n meddwl bod cau'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Uwchradd Llanwern yn syniad da?



Nac ydw



Ddim yn gwybod



Ydw

2. Ydych chi'n meddwl bod gwneud darpariaeth i addysgu'r plant mewn lleoliadau prif ffrwd yn lle hynny yn syniad da?



Nac ydw



Ddim yn gwybod



Ydw

3. Beth sy'n dda am y cynnig, yn eich barn chi?

4. Allwch chi feddwl am unrhyw resymau pam na ddylen ni wneud hyn?

5. Hoffech chi ddweud rhywbeth arall wrthon ni?

Diolch am dreulio amser yn rhoi eich barn i ni!

